

**COFNODION CYFARFOD O GYNGOR SIR POWYS A GYNHALIWYD TRWY  
GYFRWNG TEAMS DDYDD IAU, 30 GORFFENNAF 2020**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir MC Mackenzie, J Wilkinson a J Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Roedd gan bob Aelod fuddiannau personol, heb fod yn rhagfarnu, yn eitemau 10 ac 11 ar Dreuliau'r Aelodau.

**3. COFNODION**

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror a 5 Mawrth 2020 fel cofnodion cywir.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Oedodd y Cyngor am ennyd i gofio am Sharon Scalon, aelod o dîm gofal cymdeithasol oedolion y Cyngor oedd yn gweithio yn Aberhonddu, a fu farw o'r hyn oedd yn cael ei amau i fod yn Covid-19.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl grwpiau gwirfoddol a oedd wedi cefnogi cymunedau ym Mhowys yn ystod y pandemig. Dywedodd ei bod wedi derbyn negeseuon o werthfawrogiad am y galwadau lles a wnaed i bobl y gofynnwyd iddynt gysgodi. Nododd hefyd lwyddiant y sesiynau briffio ar-lein a drefnwyd ar gyfer yr aelodau a gobeithiai fod hyn yn rhywbeth a allai barhau yn y dyfodol.

**5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD**

Nododd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cadw'r gwasanaethau i fynd yn ystod cyfnod y cloi a gofynnodd i'r Prif Weithredwr drosglwyddo ei diolch i'r staff. Diolchodd i'r Aelodau am y gwaith roeddent wedi bod yn ei wneud yn eu wardiau. Yn ystod y pandemig roedd y Cabinet wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd mewn cyfarfodydd ffurfiol a chyda Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd Cymru a Gweinidogion. Roedd hi hefyd wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr grwpiau.

Roedd yn falch o nodi bod Cronfa Bensiwn Powys wedi cael ei barnu i fod yn un o'r rhai oedd yn cael ei gweithredu orau yn y wlad, yn y 7<sup>fed</sup> safle allan o 90. Dywedodd y cytunwyd ar ddechrau'r cyfnod cloi y byddai gwaith yn parhau ar drawsnewid ysgolion a bod y ddogfen gynbig ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i chytuno a'i chymeradwyo gan Lywodraethau'r DU a Chymru a bod cyllid cyfalaf wedi'i addo. Byddai gwaith yn dechrau yn awr ar ddatblygu prosiectau ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru.

<b>6. GWYBODAETH GAN Y PRIF WEITHREDWR</b>
--

Cydnabu'r Prif Weithredwr hefyd waith staff yn ystod y pandemig. Rhoddodd deyrnged i'r Parchedig Ian Charlesworth, Cadeirydd PAVO ac aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a fu farw. Cydnabu hefyd y berthynas waith agos â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Heddlu Dyfed Powys yn ystod y pandemig. Roedd y Cyngor yn parhau i ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru y dylai staff weithio gartref os yn bosibl. Roedd y rhan fwyaf o'r prif swyddfeydd gweinyddol yn dal i fod ar gau neu gydag oriau agor cyfyngedig. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn adeiladau i alluogi mwy o staff i ddychwelyd. Roedd gwasanaethau yn dal ar gael i breswylwyr gyda llawer mwy ar gael ar-lein.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor y byddai Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal ymweliadau monitro dros yr haf a chynhadledd wella ym mis Hydref. Byddai Estyn yn cynnal cynhadledd wella ym mis Tachwedd.

<b>7. GWELEDIGAETH 2025: ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL 2019-2020 AC ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2019-2020</b>
---

Ystyriodd y Cyngor Weledigaeth 2025: Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cynllun Gwella Corfforaethol (CIP) 2020 ac Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2020. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yn ystod 2019-20 yn erbyn yr amcanion Llesiant a'r gweithgareddau a nodir yn Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol.

Yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn mesurau a gweithgareddau, graddiwyd pob un o'r amcanion Llesiant gan ddefnyddio graddfa yn amrywio o ragorol i wael. Cafodd Trigolion a Chymunedau a Gwneud iddo Ddigwydd eu graddio'n dda, graddiwyd yr Economi ac Iechyd a Gofal yn ddigonol. Cafodd Dysgu a Sgiliau ei raddio'n wael oherwydd adroddiad beirniadol Estyn ar y gwasanaethau Ysgolion. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n galed i roi'r cynllun gweithredu ar ôl arolygu ar waith a disgwyliid iddo gael ei raddio'n uwch yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Archwiliwyd y cynllun a derbyniwyd y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu. Roedd yr aelodau yn canmol natur hawdd ei darllen yr adroddiadau.

Ymgorfforwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn y Cynllun Gwella Corfforaethol gan fod angen i gydraddoldeb fod yn thema gref sy'n rhedeg trwy'r cynllun.

Cynigiwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rachel Powell ac o 63 pleidlais i 1 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD y dylai cynnwys Gweledigaeth 2025: Adroddiad Perfformiad Blynyddol CIP 2020 ac Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/2020 gael eu nodi a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi yn unol â dyletswyddau adrodd statudol.**

<b>8. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2019-2020</b>
---

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2019-20. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith a wnaed yn ystod 2019-20 i sicrhau cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a pherfformiad yn erbyn gofynion y Safonau. Roedd yr Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg yn dymuno i'r Cyngor symud ymhell y tu hwnt i'r rhwymedigaethau statudol isaf i ddatblygu a chryfhau'r Gymraeg ledled Powys.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Huw Williams ac o 63 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.**

<b>9. TROSGLWYDDIADAU</b>
---------------------------

Ystyriodd y Cyngor nifer o gynlluniau cyfalaf o'r gwasanaethau hamdden a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd i ddod i'w cwblhau'n gynnar tra byddai llai o ddefnydd o'r safleoedd oherwydd cyfyngiadau Covid 19 sydd ar waith ar hyn o bryd. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth y byddai cwmnïau lleol yn cael cyfle i gynnig am y gwaith hwn.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac o 63 pleidlais i 2 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo rhyddhau'r £1.59 miliwn o'r llinell Cynlluniau sy'n aros am gael eu Cymeradwyo yn y Gyllideb Gorfforaethol a dwyn ymlaen £1.07 miliwn a ddyrannwyd i'r cynlluniau hyn ym mlynnyddoedd i ddod y rhaglen gyfalaf i sicrhau y gellir cwblhau'r prosiectau hyn.**

**10. LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2019-20**

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr aelodau fod ganddynt fuddiant personol a heb fod yn rhagfarnu yn yr eitem hon a'r eitem ganlynol ac y dylent lenwi ffurflen datgan buddiannau.

Derbyniodd y Cyngor fanylion y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn ystod blwyddyn dreth 2019-20, yn unol â gofynion Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRPW).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac o 59 pleidlais i 0 gyda 2 yn ymatal

**PENDERFYNWYD y dylid nodi'r adroddiad.**

**11. CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2020-21**

Nododd y Cyngor argymhelliad Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRPW) mewn perthynas â'r symiau i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig. Roedd yr IRPW wedi penderfynu dyfarnu codiad o £350 (2.52%) i'r cyflog sylfaenol i'w gymhwyso o 1 Ebrill 2020. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried dyrannu'r 18 o Uwch Gyflogau.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones ac o 58 pleidlais i 1 gyda 5 yn ymatal

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r argymhelliad i ddyrannu hyd at 18 o Uwch Gyflogau fel y manylir yn adran 4.11 yr adroddiad.**
2. **Cymeradwyo cyhoeddi Atodlen Tâl yr Aelodau yn seiliedig ar yr adroddiad hwn.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh y cyfarfod am 16.07.

**12. ARGYMHELLIAD GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i fabwysiadu'r system o "Gwestiynau Ffurfiol Unrhyw Amser".

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Les George ac o 62 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu "Cwestiynau Ffurfiol Unrhyw Amser" i Aelodau Portffolio a Phenaeithaid Gwasanaeth, gyda Chwestiynau yn y Cyngor Llawn yn parhau;**
2. **diwygio'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad;**

**3. dylid cynnal adolygiad pellach ymhen 12 mis.**

<b>13.</b>	<b>PENODIADAU A WNAED GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL AC A GYMERADWYWD GAN Y SWYDDOG MONITRO</b>
------------	--

Nododd y Cyngor y penodiadau a wnaed i gyrrf allanol gan grwpiau gwleidyddol ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan bŵer dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

y Cynghorydd Sir James Evans a benodwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan y Grŵp Ceidwadol yn lle'r Cynghorydd Sir Iain McIntosh.

y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas a benodwyd i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Grŵp Ceidwadol yn lle'r Cynghorydd Sir Claire Mills.

<b>14.</b>	<b>TREFNIADAU AR ÔL Y BWRDD GWELLA A SICRWYDD</b>
------------	---

Rhoddodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr fanylion y trefniadau a oedd yn cael eu rhoi ar waith wrth i rôl y Bwrdd Gwella a Sicrwydd gael ei lleihau yn yr hydref er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli ei daith wella ei hun yn effeithiol a rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru. Byddai Bwrdd Gwella Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth yr Arweinydd, yn cael ei sefydlu a byddai is-grwpiau yn cwmpasu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Tai a Phriffyrdd, Trafnidiaeth ac Adfywio yn cynnwys yr Aelodau Portffolio a'r Uwch Swyddogion perthnasol gyda chefnogaeth arbenigwyr annibynnol yn gweithio ar sail gorchwyl a gorffen.

Byddai rôl fwy i'r Pwyllgorau Craffu y byddai eu gwaith yn cyd-fynd â'r rhaglen drawsnewid a byddai cyfarfodydd rheolaidd parhaus gydag arweinwyr y grwpiau hefyd.

<b>15.</b>	<b>RHYBUDD O GYNNIG: DATGANIAD O ARGYFWNG HINSAWDD A GALWAD I WEITHREDU AR YNNI LLEOL</b>
------------	---

Trafododd y Cyngor y rhybudd o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton:

"Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod adroddiad Panel yr IPPC ar gynhesu byd-eang yn rhagweld effeithiau difrifol ar iechyd, cartrefi a'r amgylchedd, gyda llifogydd difrifol Hydref 2019 a Chwefror 2020 yn peryglu cymunedau Powys yn dangos yn glir nad ydym wedi'n paratoi yn ddigonol ar gyfer yr heriau sy'n ein hwynebu fel Cyngor.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi, trwy ddatgan argyfwng hinsawdd, bod cynghorau'n dangos eu harweinyddiaeth ar y cyd ac yn nodi'r brys y maent, fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, yn ei roi ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio'r economi fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi trwy gefnogi'r Mesur Trydan Lleol y bydd y cyngor yn dileu'r rhwystrau i gyflenwi ynni lleol, ac y gallai arwain trwy esiampl wrth leihau

ei ôl troed carbon corfforaethol trwy ddefnyddio ein hystâd ffermydd i ddod yn ddarparwr trydan adnewyddadwy lleol, wrth gefnogi cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o leihau eu hól troed carbon a buddsoddi yn eu cyfleusterau cymunedol a'u cefnogi.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymrwymiad Fay Jones, AS i'r ymdrech drawsbleidiol i gael y Mesur Trydan Lleol yn gyfraith, gan helpu Cynghorau i roi hwb i chwyldro ynni lleol sydd â'r potensial i leihau ôl troed carbon Powys unwaith ac am byth a dosbarthu'r buddion i gymunedau lleol am byth.

**Felly mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

1. Ymuno â chynghorau eraill ledled Cymru i ddatgan Argyfwng Hinsawdd
2. Cefnogi gweithredu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) i wneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030.
3. Gofyn i'r Arweinydd ystyried pennu rolau yn y cabinet i arwain ar liniaru Newid Hinsawdd ac ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid trwy: A. sefydlu gweithgor trawsbleidiol a, B. sefydlu grŵp rhanddeiliaid lluosog ar draws Powys, i ddatblygu darlun sylfaenol @2020 a chyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ar gyfer Powys wirioneddol gynaliadwy.
4. Cefnogi ein ASau i sicrhau bod y Mesur Trydan Lleol yn llwyddo mewn Dadl Gohirio i annog a galluogi cyflenwi trydan yn lleol a helpu i greu cymunedau cryfach ym Mhowys.
5. Gofyn i Lywodraethau Cymru a'r DU ddarparu'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl i sicrhau gostyngiadau effeithiol mewn carbon a phontio i economi werdd ym Mhowys.

Dadleuodd rhai Aelodau y dylai'r gweithgor trawsbleidiol edrych ar hyn tra bod eraill yn dadlau na fyddai hyn ond yn arwain at oedi. Cynigiwyd cynnig i gyfeirio hyn at y gweithgor trawsbleidiol i adrodd yn ôl o fewn 6 mis gyda chynigion penodol gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir James Evans. Datganodd y Cadeirydd fod 28 o aelodau wedi pleidleisio dros gynnig y Cynghorydd Jenner a 28 yn erbyn gydag 2 wedi ymatal ac fe'i collwyd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

(DS: Ers y cyfarfod, mae wedi dod yn amlwg y dylai cofnod cywir y bleidlais fod wedi bod 29 wedi pleidleisio dros gynnig y Cynghorydd Jenner a 27 yn erbyn gyda 2 wedi ymatal).

Pleidleisiodd y Cyngor ar rybudd o gynnig y Cynghorydd Berriman a'r Cynghorydd Charlton ac o 30 pleidlais o blaid i 20 pleidlais yn erbyn gyda 4 yn ymatal

**PENDERFYNWYD:**

1. **Ymuno â chynghorau eraill ledled Cymru i ddatgan Argyfwng Hinsawdd**
2. **Cefnogi gweithredu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) i wneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030.**

3. **Gofyn i'r Arweinydd ystyried pennu rolau yn y cabinet i arwain ar liniaru Newid Hinsawdd ac ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid trwy: A. sefydlu gweithgor trawsbleidiol a B. sefydlu grŵp rhanddeiliad lluosog ar draws Powys, i ddatblygu darlun sylfaenol @2020 a chyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ar gyfer Powys wirioneddol gynaliadwy.**
4. **Cefnogi ein ASau i sicrhau bod y Mesur Trydan Lleol yn llwyddo mewn Dadl Gohirio i annog a galluogi cyflenwi trydan yn lleol a helpu i greu cymunedau cryfach ym Mhowys.**
5. **Gofyn i Lywodraethau Cymru a'r DU ddarparu'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi gostyngiadau carbon effeithiol a phontio i economi werdd Powys.**

Ymataliodd y Cyngorydd Sir Stephen Hayes rhag pleidleisio ar ôl methu rhan o'r ddadl oherwydd bod ei gyfrifiadur wedi colli cysylltiad yn ystod y ddadl.

<b>16. RHYBUDD O GYNNIG: TALIADAU PARCIO CEIR</b>
---

Ystyriodd y Cyngor y rhybudd o gynnig a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir James Gibson-Watt ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir William Powell:

“Er mwyn cefnogi busnesau lleol a helpu i adfywio'r economi ym Mhowys mae'r Cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet ystyried gweithredu cyfnod parcio am ddim cychwynol am 1 awr ar gyfer pob cerbyd sy'n defnyddio holl Feysydd Parcio Cyngor Sir Powys, i gael ei adolygu bob 6 mis.

Mae'r Cyngor hefyd yn annog Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio dros faterion Cyllid i ofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (trwy'r cynlluniau a ariennir gan y llywodraeth sy'n dod i'r amlwg i gefnogi'r economi yn dilyn yr achosion o Covid 19) am unrhyw incwm a gollir fydd yn deillio o'r mesur hwn. Os methir â gwneud hynny dylai'r Cyngor gefnogi'r defnydd o arian Cronfeydd wrth Gefn o'r tanwariant ym mlwyddyn gyllideb 2019/20 i gynnal unrhyw ddiffyg.”

Wrth wneud y cynnig, dadleuodd y Cyngorydd Gibson-Watt y byddai'r mesur hwn, gydag ailymddangosiad Covid-19, yn helpu pobl i siopa'n lleol a fyddai o fudd i strydoedd mawr lleol. Dadleuodd yr Aelod Portffolio dros faterion yr Amgylchedd y byddai'r cynnig yn cael effaith fawr ar gyllid y gwasanaeth ac y dylid caniatáu i'r gweithgor parcio trawsbleidiol gynnal ei adolygiad.

Collwyd y cynnig o 23 pleidlais i 30 gyda 3 yn ymatal.

<b>17. RHYBUDD O GYNNIG: EFFAITH COVID-19 AR YSTRADGYNLAIS</b>
--

Trafododd y Cyngor y rhybudd o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams a'r Cynghorydd Sir Sue McNicholas:

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd The Centre for Towns ei adroddiad ar effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar 'ble' mae effaith COVID-19 yn fwyaf tebygol o gael ei theimlo.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod Ystradgynlais yn cael ei ystyried yn un o'r ugain lle mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Lloegr yn ôl mesurau The Centre for Towns.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu sefydlu grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' brys gydag Aelodau, Swyddogion a rhanddeiliaid i:

1. Ystyried canfyddiadau adroddiad *The Centre for Towns*;
2. Datblygu strategaeth economaidd ar gyfer Ystradgynlais sy'n canolbwyntio ar adferiad, cefnogaeth i fusnesau a sgiliau; a
3. Rhoi cynlluniau mesuradwy wedi'u diffinio'n glir yn eu lle i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldeb ym maes iechyd.

Galwodd y Cynghorydd Williams am sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael ar frys â materion amddifadedd ôl-ddiwydiannol ac anghydraddoldeb ym maes iechyd a amlygwyd yn adroddiad *The Centre for Towns*.

O 35 pleidlais i 7 gyda 5 yn ymatal

**PENDERFYNWYD sefydlu grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' brys gydag Aelodau, Swyddogion a rhanddeiliaid i:**

1. Ystyried canfyddiadau adroddiad *The Centre for Towns*;
2. Datblygu strategaeth economaidd ar gyfer Ystradgynlais sy'n canolbwyntio ar adferiad, cefnogaeth i fusnesau a sgiliau; a
3. Rhoi cynlluniau mesuradwy wedi'u diffinio'n glir yn eu lle i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldeb ym maes iechyd.

<b>18. CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>
--

**18.1. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol ac Ymgysylltu a'r Aelod Portffolio ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**Beth mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud i gydnabod ymgyrch *Mae Bywydau Du o Bwys*?**

**Ymateb gan yr aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu ac Ymgysylltu Corfforaethol**

Mae'r Cyngor wedi cefnogi gweithwyr mewn sawl ffordd mewn perthynas â'r ymgyrch *Mae Bywydau Du o Bwys* (BLM), fel a ganlyn:

Rhoi cyfle i weithwyr ymuno â phrotest *Mae Bywydau Du o Bwys*

Fe wnaeth y Cyngor ar 12 Mehefin hyrwyddo gwahoddiad gan Race Council Cymru, BAWSO (sefydliad sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i BME (cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig) a TUC Cymru, i bob gweithiwr, a oedd yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn protest *Mae Bywydau Du o Bwys* a gynhaliwyd ar-lein ddydd Sadwrn 13 Mehefin 2020.

### Asesiad risg COVID

Gan gydnabod bod pobl o gefndir BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) mewn mwy o berygl o ddal COVID-19 ac yn profi risg uwch o farwolaeth, gofynnodd y Cyngor yn ystod mis Mehefin i reolwyr yr holl weithwyr a oedd wedi nodi eu bod yn dod o gefndir BAME i gynnal asesiad risg COVID gyda'r gweithwyr.

Datblygwyd yr offeryn asesu risg ar-lein a ddefnyddiwyd ar gyfer hyn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i nodi pa weithwyr sydd mewn mwy o risg o effaith COVID. Mae'r offeryn asesu risg yn ddefnyddiol i'r holl weithwyr bennu eu risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol os dânt i gysylltiad â'r firws COVID-19. Mae'r offeryn yn edrych ar lawer o ffactorau perthnasol, megis rhywedd, oedran, cyflyrau iechyd ac ethnigrwydd ac mae'n rhoi sgôr risg gyffredinol. Pan fydd gweithiwr yn cael sgôr o 4 neu'n uwch, bydd y rheolwr yn ei gefnogi trwy archwilio a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'w waith.

Er bod yr holl weithwyr wedi'u gwahodd i gwblhau hyn, gofynnwyd i reolwyr staff o gefndir BAME gynorthwyo'r gweithiwr i'w gwblhau a nodi unrhyw addasiadau oedd yn ofynnol mewn perthynas â'u hiechyd a'u diogelwch parhaus.

O ystyried nad oedd holl weithlu'r Cyngor wedi darparu eu data cydraddoldeb pan wnaethant ddechrau gyda'r Cyngor ac nad oeddent wedi gwneud hynny ers hynny, gwnaethom hefyd ofyn i'r staff i gyd yn ystod mis Mehefin a allent ddarparu eu data yn wirfoddol pan nad oeddent wedi eu rhoi. Ein bwriad wrth wneud hyn oedd sicrhau y gallem gefnogi unrhyw aelodau staff eraill nad oeddent wedi nodi o'r blaen eu bod yn dod o gefndir BAME.

### Ymateb gan yr Aelod Portffolio ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Powys yn adolygu ei arteffactau hanesyddol, henebion a chasgliadau archif yng ngoleuni'r Ymgyrch *Mae Bywydau Du o Bwys*, a gofynnwyd am gyngor ynglŷn â hyn gan Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, yr Archifau Cenedlaethol, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae swyddogion y Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaeth gyda chydweithwyr mewn amgueddfeydd, archifau a'r celfyddydau ledled Cymru i hyrwyddo'r sgwrs ar hiliaeth strwythurol trwy ymuno gyda'i gilydd i archwilio sut y gallwn ddilyn i fyny ar ddatganiadau diweddar o gefnogaeth gyda chamau gweithredu diriaethol i ymdrin ag amrywiaeth hiliol, tegwch, ac amgylcheddau cynhwysol.

Yn Amgueddfa Brycheiniog yn y Gaer er enghraifft, byddwn yn arolygu'r casgliad am unrhyw ddeunydd perthnasol; yn parhau i gysylltu â Chyngor y Dref ynghylch plac Captain's Walk a phlaciau Picton, ac yn dibynnu ar y trafodaethau hynny yn creu cês arddangos yn edrych ar fudiad *Mae Bywydau Du o Bwys* a phrotest yng nghyd-destun Aberhonddu a'r ardal gyfagos. Yn y tymor hir rydym am annog cynulleidfa BAME ac addysgu cynulleidfa wen am Hanes Pobl Dduon. Mae angen i ni barhau i hyfforddi staff ledled y Sir ynghylch amrywiaeth ac yn benodol y gallu i adnabod hiliaeth bob dydd.

Mae Gwasanaeth Celfyddydau Powys yn comisiynu ac yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau a darparwyr celfyddydau sy'n ymrwymo i

Strategaeth Cydraddoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru 'Er Budd i Bawb'. Ymhellach, bydd ymrwymiad i gefnogi 10 gweithred feiddgar a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor y Celfyddydau yn sail i drefniadau cydweithredol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gyflwyno gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i gymunedau ym Mhowys. Cydnabuwyd ers amser bod amrywiaeth yn hanfodol i ymarfer creadigol a chynhyrchu'r celfyddydau, ynghyd â'r egwyddor o gynhwysiant, cydraddoldeb a hygyrchedd.

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo'n llwyr i adolygu ein harteffectau a'n cofnodion hanesyddol i sicrhau eu bod yn cofleidio gwerthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud, ond fel ceidwad hanes y sir, ein nod yw hyrwyddo a rhannu'r straeon amrywiol yn ein casgliadau i godi ymwybyddiaeth ynghylch anghyfiawnder hiliol. Mae protestiadau *Mae Bywydau Du o Bwys* ledled y byd wedi pwysleisio'r angen i ni gyflawni'r gwaith hwn i sicrhau ein bod yn parchu hanes heb hepgor cyddestun hanfodol.

Gan fod y Cynghorydd Ratcliffe wedi gadael y cyfarfod byddai ei gwestiwn atodol yn cael ei gyflwyno o dan y cynllun cwestiynau ar unrhyw adeg.

## **18.2. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

**Rhoddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams y dewis i Awdurdodau Lleol o gael staff ysgolion yn gweithio pedwaredd wythnos ychwanegol yn 'wirfoddol' ar ddiwedd mis Gorffennaf (gwyliau ysgol arferol) a chael pythefnos o wyliau ym mis Hydref - neu beidio.**

**Mae Cyngor Sir Powys yn un o dri ALI sydd wedi cytuno i fabwysiadu hyn. A yw'r Awdurdod hwn wedi ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar addysg pobl ifanc?**

**Mae'r system "Dal i Fyny" gyfredol, sy'n ymgorffori cadw pellter cymdeithasol, yn cyfateb i bobl ifanc yn mynychu'r ysgol un diwrnod yr wythnos ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb am dair neu bedair wythnos.**

**Ni fydd gan ALI eraill nad ydynt wedi derbyn y system hon ysgolion ar agor am y bedwaredd wythnos, ar ddiwedd mis Gorffennaf ond bydd eu hysgolion nhw ar agor am wythnos lawn ym mis Hydref ar gyfer eu pobl ifanc i gyd: pedwar diwrnod ychwanegol o fynychu'r ysgol.**

### **Ymateb**

Diolch am eich cwestiynau yn ymwneud â'r diwedd tymor pedair wythnos y gwnaethom benderfynu ei fabwysiadu, yn dilyn cais y Gweinidog Addysg. Rydych yn gywir i nodi mai dim ond ychydig o awdurdodau sydd wedi mabwysiadu'r dull hwn, ond gwnaed ein penderfyniad ar ôl trafodaeth ddifrifol iawn.

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â phenaethiaid ac undebau llafur, a chafwyd cyfarfodydd â chadeiryddion llywodraethwyr, i geisio cael ffordd ymlaen a fyddai orau i'n dysgwyr a'n staff. Dim ond ar ôl y trafodaethau hyn y daethom i'r farn y dylem gefnogi cais y Gweinidog, a bwrw ymlaen â gwneud y newid i ddyddiadau'n tymhorau.

Roedd y rhesymau dros ein penderfyniad yn amrywiol, ond ar yr adeg honno roeddent yn cynnwys:

- a) Ceisio gwneud defnydd da o ddyddiau ysgol yn ystod cyfnod pan oedd y gyfradd R a heintiau ledled Cymru (y tu allan i ardal lle roedd problemau ar Ynys Môn) ar bwynt isel, gan roi mwy o sicrwydd inni nag a allai fod gennym yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- b) Dod â dysgwyr yn ôl i amgylcheddau ysgol a reolir yn ofalus ar ôl cyfnod digynsail o fod i ffwrdd o'r ysgol, gyda phryderon cynyddol am iechyd meddwl a lles llawer o'n plant a'n pobl ifanc, ac mewn rhai achosion, pryder am gydweithwyr.
- c) Ceisio defnyddio'r amser hwn i helpu i gynorthwyo dysgwyr gyda'u lles, ond hefyd i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer yr hyn a allai fod yn gyfnod estynedig pellach o ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae llawer o gydweithwyr wedi mynegi pryderon yn arbennig am les dysgwyr a chefnogaeth iddynt yn y flwyddyn 10 a'r flwyddyn 12 gyfredol. Mae'r sefyllfa anrhagweladwy sy'n wynebu'r grŵp hwnnw am y flwyddyn nesaf yn bryder difrifol, o ystyried arwyddocâd y flwyddyn honno yn eu bywydau. Mae ein hysgolion uwchradd wedi ymrwymo'n llwyr i'w cefnogi, a gallent ddefnyddio'r amser ychwanegol ym mis Gorffennaf i'w helpu i'w harfogi i fod y gorau y gallant fod wrth wynebu'r misoedd nesaf, gan eu helpu i gynllunio eu gwaith a datblygu eu sgiliau ar gyfer dysgu cyfunol pellach. Yn ystod ein trafodaethau, roedd penaeithiad yn awyddus i bwysleisio y gallai eu dosbarthiadau arholiad elwa o gael mwy o amser yn yr ysgol yn ystod mis Gorffennaf fel y gallent fod wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer gweithio dros yr haf a thu hwnt.
- d) Dyrannu gwyliau hanner tymor pythefnos o hyd ym mis Hydref. Ym mis Mehefin, pan oedd yr haint yn fater 'byw' iawn, awgrymai'r modelu ystadegol y gallai mis Hydref fod yn gyfnod arbennig o anodd o ran lledaeniad y pandemig. Felly gallai ein hysgolion fod ar gau am bythefnos yn y mis hwnnw, ond gyda disgyblion mewn gwell sefyllfa ar gyfer cam nesaf y dysgu cyfunol nag y gallent fod wedi'i ddychmygu yn ôl ym mis Mawrth, a'n staff gobeithio yn cael seibiant sylweddol yn yr hyn sydd bob amser yn dymor anodd.
- e) Gwnaethom hefyd geisio cytundeb gan gyfarwyddwyr addysg yr Eglwys yng Nghymru yn y ddwy esgobaeth y mae Powys yn rhan ohonynt, cyfarwyddwr addysg yr eglwys Gatholig a chyrrff llywodraethu pob ysgol wirfoddol â chymorth ac ysgol sylfaen yn unol ag Adran 32A (7) o Ddeddf Addysg 2002, ac roeddent yn gwbl gefnogol i'n penderfyniad.

Gwnaed y penderfyniad yn gyfan gwbl am resymau addysgol, ac o ystyried yr ansicrwydd ar adeg y penderfyniad, roedd yn well defnyddio'r dyddiau a oedd ar gael, a sicrhau y gallai ein dysgwyr gael eu cefnogi hyd eithaf ein gallu cyn eu gwyliau haf.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

### 18.3. Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies

**Mae llawer o waith cynllunio a pharatoi ar y gweill ar hyn o bryd i alluogi ysgolion i agor ym mis Medi, i bobl ifanc ddychwelyd i ysgolion.**

**Pa ddyddiad fydd yr Awdurdod hwn yn ailafael yn ei fusnes arferol a phryd fydd swyddfeydd y Cyngor ar agor i aelodau'r cyhoedd?**

### **Ymateb**

Daeth Deddf Coronafeirws 2020 i rym ar 25 Mawrth 2020, gan roi pwerau brys i'r Llywodraeth ddelio â'r pandemig; ategir hyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Defnyddiwyd Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol Cyngor Sir Powys ar 18 Mawrth gan alluogi Gwasanaethau'r Cyngor i ganolbwyntio ar weithgareddau allweddol i ymateb i Covid-19. Mae'r Adroddiad Perfformiad am Chwarter 1, a ystyriwyd gan y Cabinet ar 28 Gorffennaf yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r Cyngor mewn ymateb i Covid-19 dros y misoedd diwethaf.

Wrth i Lywodraeth Cymru gynnal ei hadolygiadau 21 diwrnod, rydym wedi ailagor llawer o'n gwasanaethau yn raddol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ar yr adeg hon, mae deddfwriaeth frys yn parhau i fod mewn grym. Mae Covid yn parhau i gylchredeg yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Er bod ysgolion yn ailagor, mae hyn yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, yn seiliedig ar gyngor gwyddonol gan Gell Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru. Ar yr adeg hon, cyngor Llywodraeth Cymru o hyd yw

“Dim ond os **nad** yw'n rhesymol ymarferol iddynt weithio gartref y caniateir i weithwyr ddychwelyd i'r gweithle. I'r rhai na allant weithio gartref, mae'n bwysig i gyflogwyr wneud asesiad cychwynnol ynghylch a yw'n ddiogel i staff weithio a lle bo hynny'n berthnasol, eu cyfeirio at sefydliadau cymorth priodol”(1) (2).

Er ein bod yn paratoi ein hadeiladau i alluogi staff i ddychwelyd i'n swyddfeydd, rhaid cynllunio hyn yn ofalus yn unol â Chanllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch; ar hyn o bryd mae hyn yn gofyn am gadw pellter cymdeithasol llym, hylendid, asesiad risg ar gyfer pob man gwaith, ynghyd â threfniadau i gofnodi presenoldeb, rhag ofn y bydd angen Orlhain Cysylltiadau. Felly nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gyhoeddi dyddiad pan fydd swyddfeydd y Cyngor ar agor i aelodau'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd mae dros 2,000 o staff yn gweithio gartref, gan ddefnyddio ein buddsoddiad mewn technoleg ddigidol. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau, sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd trwy ein gwefan a thros y ffôn. Mae dros 3,350 o'n staff yn weithwyr rheng flaen, a chyn belled ag y bo modd maent yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn ein hysgolion a lleoliadau gofal, ac yn darparu ystod o wasanaethau o'n depos; gwnaed asesiad risg ym mhob un o'r lleoliadau hyn, a rhoddwyd mesurau priodol ar waith i sicrhau diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid.

Yn raddol, mae busnes arferol y Cyngor wedi'i ailsefydlu o bell trwy ddefnyddio Teams, a bydd datblygiadau pellach yn digwydd o fis Medi. Ond bydd hyn yn parhau i fod yn amodol ar gynnydd Covid wrth i swyddogion o bob rhan o'r Cyngor barhau i ymateb i'r firws, sy'n parhau i fod yn weithredol yn y Sir. Mae swyddogion wedi cynnal y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ers mis Mawrth, ac maent yn gallu ymateb i unrhyw achosion lleol o Covid yn y Sir. Ar hyn o bryd, ac yn absenoldeb brechlyn neu imiwnedd eang, ni wyddys pa mor hir y bydd angen cadw at y trefniadau hyn.

- (1) Canllawiau Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru yn Ddiogel yn y Gwaith, cyhoeddwyd 2 Mehefin 2020 <https://gov.wales/keep-wales-safe-work>
- (2) Canllawiau HSE, Gweithio'n Ddiogel yn ystod Achosion Coronafeirws <https://www.hse.gov.uk/news/assets/docs/working-safely-guide.pdf>

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Davies ynghylch yr hyn y gallai'r Cyngor ei wneud i wneud ei wasanaethau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd dros y ffôn, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd galwadau ffôn yn cael eu cyfeirio at adeiladau ond yn hytrach at liniaduron swyddogion ond y byddai'n gofyn i gydweithwyr ymchwilio i hyn ac os oedd unrhyw broblemau y byddai'n gofyn iddynt eu hateb.

**18.4. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Pa gamau y mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Powys yn eu cymryd i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng ei gweithlu ei hun, staff dan gontract a gweithwyr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (N&MWTRA) o ran cynnal a chadw ffyrdd, cau ffyrdd ac ati er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol i gymunedau lleol a'r cyhoedd sy'n teithio?**

**Ymateb**

Mae cyfarfodydd Prif Gontractwyr Cynnal a Chadw Rheolaidd yn cael eu cynnal yn wythnosol rhwng staff CSP a NMWTRA, lle mae'r holl waith sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith Cefnffyrdd yn cael ei drafod a'i gofnodi.

O ran cau unrhyw ffyrdd ar gyfer cynnal a chadw cylchol, ceir cyfarfod ymlaen llaw â CSP, NMWTRA a Chontractwyr (os yw'n berthnasol), i sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gydlynw mewn modd effeithlon a dilynir hyn gan gyfarfod dad-friffio yn dilyn y gwaith i weld a oes angen unrhyw newidiadau ar gyfer achlysuron yn y dyfodol.

Mae'r holl waith mawr ar Gefnffyrdd wedi'i amserlennu trwy gydlynwyr Streetworks. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl waith cynnal a chadw ffyrdd a chyfleustodau ac ati yn cael ei gydlynw a bod gofod ar y ffyrdd yn cael ei archebu a'i ddyrannu'n effeithlon.

Mewn ymateb i gais y Cynghorydd Powell i'r cyngor ymgysylltu ag NMWTRA i ymdrin â phryderon preswylwyr ynghylch cau'r A479, dywedodd yr Aelod Portffolio dros yr Amgylchedd y byddai penodi Pennaeth Gwasanaeth newydd yn rhoi cyfle i feddwl o'r newydd.

**18.5. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Yng ngoleuni sylwadau cadarnhaol a wnaed yn ddiweddar gan Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar yr ymgyrch dros derfyn cyflymder '20 yn Ddigon' ym mhob ardal drefol, pa ystyriaeth y mae Cyngor Sir Powys wedi'i rhoi i osod terfyn gwirfoddol 20mya ar bob cerbyd sy'n eiddo iddo, neu sy'n darparu ei wasanaethau, yn ein trefi a'n pentrefi?**

**Gan y byddai gan y mesur hwn fanteision mawr o ran diogelwch y cyhoedd a cherddwyr, bywiogrwydd ardaloedd manwerthu a'r sector lletygarwch a diogelu'r amgylchedd, a fydd yr Aelod Portffolio yn ymrwmo i gomisiynu arolwg ymarferoldeb, i'w adolygu gan gymheiriaid yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth?**

### **Ymateb**

Cwblhaodd Grŵp Tasglu 20mya Cymru ei adroddiad a gefnogwyd gan bleidlais mewn cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf 2020 i symud ymlaen gyda therfyn cyflymder diofyn 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru cyn gynted â phosibl, gyda dyddiad targed o Ebrill 2023 ar gyfer sicrhau bod y newid yn y gyfraith yn dod i rym. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y nifer o ystyriaethau a chymhlethdodau y tu ôl i newid ymddygiad o'r fath ac mae hefyd yn cyfeirio na fydd yn briodol gosod terfyn cyflymder o 20mya ar yr holl ffyrdd 30mya presennol megis prif goridorau neu lle nad oes llawer o ddatblygiad ffryntiad ac y bydd angen rhai eithriadau (tua 17% o'r rhwydwaith).

Mae Powys yn sir enfawr ac mae'n ofynnol i'w staff (a'i aelodau) deithio o amgylch y sir gan gyflawni llawer o swyddogaethau amrywiol o wastraff ac ailgylchu i ofal cymdeithasol, gyda gweithwyr yn defnyddio cymysgedd o'u cerbydau eu hunain a rhai a gyflenwir gan wasanaeth neu ar brydles. Mae hefyd yn cyflogi llawer o gontractwyr a chyflenwyr lleol sy'n teithio'n sylweddol fel gweithredwyr bysiau. Ar y cyfan mae gan Bowys record diogelwch ffyrdd dda a chyfradd damweiniau isel yn ei ardaloedd trefol, gyda mwyafrif y damweiniau difrifol yn digwydd ar y rhwydwaith gwledig. Fel rhan o'r ymateb i Covid 19 ac Ailgodi'n Gryfach, byddwn yn cynllunio i leihau ein teithio lle bo'n briodol gan ddefnyddio technoleg ond ar hyn o bryd nid oes gennym gynlluniau o ran gweithredu 20mya gwirfoddol ac mae'n anodd rhagweld sut y gellid gweithredu hyn a 'monitro / gorfodi' yn bragmatig.

Gofynnodd y Cynghorydd Powell i'r Aelod Portffolio ailedrych ar hyn yng ngoleuni'r cynnig brys ar fater yr hinsawdd a basiwyd gan y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Hulme y byddai hyn ar yr agenda yn y dyfodol.

**Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)**